Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd am 9.07pm ar ddydd Mercher, 8 Mehefin yn Neuadd y Sir, Llandeilo

Yn Bresennol: Cyng Ros Bellamy, Maer Colin Jenkins, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies, Cyng Richard Wallace, Cyng Fran Murphy, June Stait, Clerc

6530/Mehefin/05 Ethol Cadeirydd
Fe wnaeth y Maer, Colin Jenkins ofyn am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd. Cynigodd Cyng Ros Bellamy bod Cyng Hugh Towns yn cymryd y gadair ac eiliwyd hyn gan Cyng Charlotte Leadbeater gyda phawb yn gytun.

6531/Mehefin/05 Ethol Is-Gadeirydd
Cynigodd Cyng Charlotte Leadbeater enw Cyng Pam Steane Price, ac eiliwyd hyn gan Cyng Ros Bellamy gyda phawb yn gytun.

6532/Mehefin/05 Talu Anfonebion
Cymeradwywyd yr anfonebion canlynol i'w talu:

Anfoneb Orchardweb 1 Mehefin am ddiweddariad i'r wefan £20.50

Cynghorodd y Maer Cyng Colin Jenkins ei fod wedi derbyn anfoneb wrth dafarn yr Hydd Gwyn am Swper y Maer ac y bydd yn anfonebu'r Cyngor am hyn maes o law.

6533/Mehefin/05 Cydnabyddiaeth i'r Clerc
Mae anfoneb y Clerc LTC/08 am £481.49 wedi ei gymeradwyo i'w dalu. £481.49
59.5 awr @ £7.74 = £460.53, a chostau, postio £20.96.

6534/Mehefin/05 Talebau
Derbyniwyd y swm o £1,264.40 wrth y Cyngor Sir heb fanylion pellach

6535/ Mehefin/05 Balans Banc
Cofnodwyd yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

Manylion	**Ffigurau'r Mis**	**Ffigwr Cynyddol**	**sylwad**
		Yn ôl y Banc:	
Balans Banc ar 8 Mehefin 05			
Rhif Cyfrif Cyfredol. 21062123		20,871.22	
Cyfrif Cadw: 51062530		28,716.58	
Cyfrif y Maer: 61377639		388.85	

Awgrymodd Cyng Hugh Towns, Cadeirydd Cyllid, y dylid symud £5,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif cadw.

6536/Mehefin/05 Taliadau Adran 137

Cytunwyd ar y rhoddion canlynol:

Shelter Cymru (s.137)	£50
Relate, Llandeilo (s.137)	£100
CAVS, Caerfyrddin (s.137)	£100
Emma Pretty, Taith *Guides* i Ddenmarc, (s137)	£100
Llandeilo yn ei Blodau (s.144)	£500
Cymdeithas Ymddiriedolaeth Ddinesig (s.137)	£100

Cynhelir trafodaeth ar rhodd i ddigwyddiad Ceramica yn y cyfarfod nesaf, pan y gobeithir y bydd mantolen ar gael.

6537/Mehefin/05 Bwrdd Negeseuon y Wefan

Gan bod y nifer o negeseuon wedi cynyddu yn ddiweddar, penderfynwyd gadw'r bwrdd negeseuon yn weithredol.

Roedd nifer o negeseuon yn cyfeirio at yr adnoddau sglefr-fyrddio. Cyng Charlotte Leadbeater i drafod hyn gyda Chris Maunder a'r Gymdeithas Gymunedol. Efallai mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw gwaith cynnal a chadw ar y safle. Hyn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

6538/Mehefin/05 Gohebiaeth

1. Nodwyd bod Archwiliad HLBAV wedi newid eu henw i BDO Stoy Hayward.
2. Bydd cyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad yn cael ei gynnal am 10.00am ar 17 Mehefin 2005 yng ngwesty'r Llwyn Iorwg yng Nghaerfyrddin.
3. Gwahoddiad wrth Faer Hiroshima i ymuno â symudiad y Maer er Heddwch– hwn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf gan fod y Clerc wedi colli'r papurau.

6539/Mehefin/05 Pay Connect

Gan fod aelodau staff newydd gennym, bydd y cytundeb gyda Pay Connect yn parhau, er mwyn iddyn nhw baratoi gwybodaeth cyflogau.